Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyfarwyddyd

2. Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cynnwys

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn 2
   1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru? 3
   1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 3
   1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol? 3

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru 4
   2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol? 4
   2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu? 4

3. Amcanion cydraddoldeb 5
   3.1 Beth sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd ynglŷn ag amcanion cydraddoldeb 5

4. Trosolwg 6

5. Defnyddio gwybodaeth, ymgysylltiad ac asesu effaith 7

6. Datblygu amcanion 8

7. Cymesuredd 9

8. Cyhoeddi 9

9. Mesur cynnydd 10

10. Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol 11
    10.1 Beth sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd o ran Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol 11

11. Beth yw pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol? 13

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

Dyddiadau allweddol ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

5 Ebrill 2011	Dyletswydd gyffredinol yn dod i rym
6 Ebrill 2011	Dyletswyddau penodol yng Nghymru yn dod i rym
2 Ebrill 2012	Cyrff rhestredig yng Nghymru i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
2 Ebrill 2012	Rhaid bod cyrff rhestredig yng Nghymru wedi ymgysylltu â phobl â diddordeb fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth berthnasol i asesu eu gweithgareddau yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi gwybodaeth berthnasol fel y bo'n briodol.

1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?

I ddibenion y canllaw hwn, mae awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (neu 'gorff rhestredig') yn un sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 Atodlen 19 y Ddeddf fel y'i hategwyd a'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol, cyrff addysg (yn cynnwys ysgolion), cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru.

1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

Daw Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) a deddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un Ddeddf sy'n eu disodli. Mae'n symleiddio a chryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ar anghysonderau ac yn ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â'r gofynion. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus** newydd (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun, polisïau a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn golygu'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond parthed y gofyniad i roi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

Mae'r canllaw hwn ar adegau yn defnyddio'r ymadrodd 'grŵp gwarchodedig' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig yn eu perfformiad o'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys dan y ddyletswydd gyffredinol hefyd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru gymryd er mwyn arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ganllawiau anstatudol ar y dyletswyddau penodol.

Mae'r dyletswyddau'n cysylltu â'i gilydd a gellir canfod mwy o fanylion am bob agwedd yn y canllawiau canlynol:

1. Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (trosolwg)
2. Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
3. Ymgysylltiad
4. Asesu effaith
5. Gwybodaeth am gydraddoldeb
6. Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
7. Caffael
8. Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau gweinidogol (yn cynnwys arolwg a hygyrchedd)

2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu?

Mae'r canllaw anstatudol wedi ei ddatblygu'n bennaf i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau penodol i Gymru, yn arbennig y rhai ar lefel uwch a gweithredol sy'n gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau. Bydd y canllaw hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith a gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod swyddogion uwch sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus (megis Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau Byrddau) yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol. Dylai hyn eu paratoi i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb yn y sefydliad a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel.

Mae'r blwch (blychau) testun isod yn amlinellu gofynion y rheoliadau ac mae'r rhain yn ymddangos hefyd yn y *Canllaw hanfodol*. Mae'r testun ychwanegol yn y canllaw hwn yn rhoi cyd-destun pellach ynghylch y dyletswyddau penodol.

3. Amcanion cydraddoldeb

3.1 Beth sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd ynglŷn ag amcanion cydraddoldeb

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- baratoi a chyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012
- cyhoeddi amcanion i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Os nad oes gan awdurdod amcan ar gyfer pob nodwedd warchodedig – yn ogystal ag unrhyw amcan i ddelio â gwahaniaethau tâl – rhaid iddo gyhoeddi rhesymau dros beidio
- cyhoeddi datganiad yn sefydlu'r camau mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion a faint o amser mae'n disgwyl y bydd yn ei gymryd i fodloni pob amcan
- gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at fodloni ei amcanion ac i fonitro effeithiolrwydd ei ymagwedd
- rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd yn ei feddiant wrth ystyried beth ddylai ei amcanion cydraddoldeb fod.

Amcanion ar wahaniaethau tâl

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- roi sylw dyledus i'r angen i fod ag amcanion i ddelio ag achosion unrhyw wahaniaethau tâl sy'n ymddangos i fod yn rhesymol debygol o fod yn gysylltiedig ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig
- cyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag unrhyw fwlch tâl ar sail **rhywedd** a nodwyd neu gyhoeddi rhesymau i esbonio pam nad yw wedi gwneud hyn.

Hyd yn oed os yw awdurdod cyhoeddus yn cyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio â gwahaniaethau tâl parthed unrhyw nodwedd warchodedig, mae'n rhaid rhoi sylw dyledus o hyd i'r angen i gael amcanion cydraddoldeb eraill parthed y nodwedd warchodedig honno. Os nad yw'n cyhoeddi unrhyw amcan arall o'r fath, bydd arno angen egluro pam ddim.

Adolygu a diwygio amcanion

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- adolygu ei holl amcanion cydraddoldeb o leiaf unwaith pob pedair blynedd.

Gall corff rhestredig adolygu neu ail-lunio ei amcanion cydraddoldeb ar unrhyw adeg. Os bydd yn gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r amcan newydd neu ddiwygiedig ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ei ddatganiad a gyhoeddwyd ynglŷn â'r amserlen a chamau i fodloni ei amcanion. Os ceir newid i amcan cydraddoldeb ynghylch tâl rhywedd, bydd angen adlewyrchu hyn yn ei gynllun gweithredu tâl rhywedd.

4. Trosolwg

Bydd gosod amcanion cydraddoldeb effeithiol yn hanfodol i fodloni'r ddyletswydd ac i weithio tuag at well canlyniadau ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig.

Mae'n bwysig bod â throsolwg a dealltwriaeth glir o'r prif broblemau sy'n wynebu'r grwpiau gwarchodedig. Dylid datblygu amcanion ar sail ystyriaeth i waith a gweithgareddau corff rhestredig, gan gynnwys cyflogaeth, cyflenwi gwasanaeth a datblygu polisi. Dylai'r dadansoddiad hwn gael ei oleuo gan y camau a gymerwyd yn barod i fodloni dyletswyddau penodol eraill, gan gynnwys ymgysylltiad, casglu a dadansoddi gwybodaeth ac asesu effaith.

Rhaid i gorff rhestredig ystyried sut y mae ei waith a'i weithgareddau yn cyfrannu at neu y gallai gyfrannu at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Bydd ymgysylltiad yn arbennig o bwysig wrth ddarparu sail tystiolaeth gadarn i ystyried y materion hyn. Bydd hyn yn gyfle allweddol i gasglu gwybodaeth am ba rannau o'i waith a allai fod o ddiddordeb i bobl gyda nodweddion gwarchodedig arbennig.

Bydd yn ddefnyddiol pe bai'r gwaith o ddatblygu amcanion cydraddoldeb yn cael ei gysoni gyda phrosesau cynllunio busnes arferol y sefydliad. Bwriedir i'r hyblygrwydd i gyhoeddi amcanion unrhyw bryd hyd at 2 Ebrill 2012 hwyluso hyn.

5. Defnyddio gwybodaeth, ymgysylltiad ac asesu effaith

Rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i wybodaeth berthnasol wrth osod neu ddiwygio amcanion cydraddoldeb. Daw rhan bwysig o'r wybodaeth berthnasol honno o ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig. Dylai ymgysylltu ddigwydd yn ddigon cynnar i ddylanwadu ar osod blaenoriaethau.

Mae gwybodaeth berthnasol hefyd yn cynnwys darganfyddiadau asesiadau effaith ar grwpiau gwarchodedig (boed y rhain wedi eu cyhoeddi neu beidio).

Mae nifer o ffynonellau tystiolaeth eraill a allai fod yn ddefnyddiol:

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er enghraifft yn cadw gwybodaeth o'r Cyfrifiad ac Arolwg y Gweithlu.
- Mae Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei isadran ystadegau, yn cynnwys cyfoeth o gyhoeddiadau perthnasol ar draws pob maes polisi.
- Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ystod o dystiolaeth ddefnyddiol ar ei wefan gan gynnwys yr *Arolwg Tair Blynedd: Pa mor deg yw Prydain?, Pa mor deg yw Cymru?* ac *An Anatomy of Economic inequality in Wales*.
- Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn cadw gwybodaeth ddefnyddiol am grwpiau gwarchodedig.

Gweler hefyd y canllawiau yn y gyfres hon ar wybodaeth am gydraddoldeb, ymgysylltiad ac asesu effaith.

6. Datblygu amcanion

Rhaid i awdurdod rhestredig osod amcan cydraddoldeb mewn perthynas â phob un o'r grwpiau gwarchodedig neu gyhoeddi ei resymau am beidio â gwneud hynny. Bydd yn ddefnyddiol gofyn y cwestiynau canlynol mewn perthynas â phob un o'r grwpiau gwarchodedig:

- A ystyriwyd pob un o dri nod y ddyletswydd gyffredinol (hynny yw, dileu gwahaniaethu/aflonyddu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da) mewn perthynas â'r grwpiau gwarchodedig?
- A oes ffocws ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y gwahanol grwpiau gwarchodedig a'r camau a allai ymdrin yn fwyaf effeithiol â'r anfantais a brofir ganddynt?

Rhaid i awdurdod rhestredig nodi'r canlynol:

- y camau mae'n eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni pob un o'r amcanion
- pa mor hir y mae'n disgwyl ei gymryd i gyflawni pob un o'r amcanion, a
- sut y bydd yn monitro cynnydd tuag at bob amcan.

Dylai amcanion fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Dylid nodi gwelliannau penodol mewn canlyniadau ar gyfer gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth, gan nodi'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

Mae llawer o'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau gwarchodedig yn rhai hirdymor a dwfn a bydd yn cymryd peth amser i ymdrin â'r rhain yn llawn. I gyflawni newid sylfaenol tymor hir efallai y bydd yn rhaid cadw'r un amcan am gyfnod sylweddol.

I gyflawni nodau'r ddyletswydd, mae angen i'r amcanion ganolbwyntio ar y materion pwysicaf o ran cydraddoldeb a bod yn ddigon eang eu cwmpas. Er mwyn bodloni'r ddyletswydd, rhaid i'r amcanion gael eu seilio ar wybodaeth ddigonol ac ymgysylltiad priodol.

Un o nodweddion allweddol gosod amcanion cydraddoldeb yw sicrhau gwell canlyniadau i bobl gyda nodweddion gwarchodedig. Mae'n bwysig y cymerir gofal i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu drafftio i fod yn benodol, yn fesuradwy, yn realistig ac yn rhai y gellir eu cyflawni o fewn amserlen glir.

Lle bo partneriaethau fel Byrddau Gwasanaethau Lleol yn nodi maes lle mae anghyfartaledd yn digwydd, efallai y bydd pob un yn dymuno datblygu amcan i ymdrin ag ef mewn ffordd wedi ei chyd-gysylltu

7. Cymesuredd

Mae rhoi ystyriaeth ddyledus i nodau'r ddyletswydd gyffredinol yn golygu cymryd agwedd gymesur, a dylai hyn fod yn berthnasol i'r modd y mae cyrff rhestredig yn gosod eu hamcanion.

8. Cyhoeddi

Rhaid i awdurdodau rhestredig gyhoeddi eu hamcanion erbyn 2 Ebrill 2012. Dylai amcanion gael eu hadolygu'n rheolaidd a rhaid iddynt gael eu hadolygu o leiaf bob 4 blynedd.

Nid yw'r adolygiad gorfodol ar ôl 4 blynedd yn atal awdurdodau rhag eu hadolygu yn fwy aml a'u newid os yn briodol. Yn wir, os nodir drwy fonitro nad yw amcan yn cyflenwi fel y rhagwelwyd, efallai y bydd yn rhaid ei newid.

Yn ogystal â chyhoeddi ei amcanion, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gorff rhestredig gyhoeddi datganiad yn cyflwyno'r canlynol:

- y camau a gymerodd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i fodloni ei amcanion, a
- pha mor hir y bydd yn ei gymryd i fodloni pob amcan.

Mae'n ofynnol i gyrff rhestredig gyhoeddi'r cynnydd a wnâi tuag at gyflawni'r amcanion yn eu hadroddiad blynyddol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i gorff rhestredig wreiddio'r amcanion cydraddoldeb o fewn prif ddogfennau'r sefydliad e.e. cynllun corfforaethol neu strategol.

9. Mesur cynnydd

Er mwyn gallu cyhoeddi'r cynnydd a wnaed i fodloni ei amcanion, bydd angen i gorff rhestredig fod yn eglur ynglŷn â sut gynnydd/llwyddiant a fydd, sut y bydd yn cael ei fesur a sut y bydd yn cael ei adrodd.

Bydd cadw'r cynnydd o dan arolwg yn helpu i nodi lle na wnaed cynnydd digonol, ac a fydd angen i gorff rhestredig ddiwygio ei ddull. Bydd ymgysylltu â grwpiau a warchodir a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn ddefnyddiol iawn yn y broses hon, oherwydd bydd yn helpu awdurdodau i gadw mewn cysylltiad â'r prif faterion a phryderon.

Gellid defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol i fesur cynnydd a chanlyniadau. Mae awdurdodau yn debygol o gadw rhywfaint o'r wybodaeth hon e.e. arolygon staff, dadansoddiad o lythyrau cwyn a ffurflenni adborth.

Bydd yn ddefnyddiol diweddaru'r uwch reolwyr ac aelodau'r bwrdd ynglŷn â'r cynnydd yn erbyn yr amcanion a gytunwyd ynghyd â gwybodaeth arall yn ymwneud â pherfformiad. Mae dangos arweinyddiaeth amlwg ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb yn debygol o fod yn gam pwysig tuag at gyflwyno amcanion cydraddoldeb.

10. Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol

10.1 Beth sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd o ran Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012.

Rhaid i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn gynnwys:

- disgrifiad o'r awdurdod
- ei amcanion cydraddoldeb (yn cynnwys amcanion tâl)
- y camau mae wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i fodloni ei amcanion ac o fewn pa amserlen
- ei drefniadau i fonitro cynnydd ar fodloni ei amcanion cydraddoldeb ac effeithiolrwydd y camau mae'n eu cymryd i fodloni'r amcanion hynny
- ei drefniadau i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd o ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig ynglŷn â sut y gallai gwaith awdurdod ymwneud â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am wahaniaethau tâl yn ymwneud â nodwedd warchodedig ac achosion y gwahaniaethau hyn
- ei drefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd yn ei feddiant y mae'n ystyried sy'n briodol ei chyhoeddi
- ei drefniadau ar gyfer:
  - asesu effaith debygol unrhyw bolisïau ac arferion mae awdurdod yn eu hargymell, eu hadolygu neu eu diwygio ar grwpiau gwarchodedig
  - monitro eu heffaith wirioneddol a pharhaus
  - cyhoeddi adroddiadau ble mae asesiad yn dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu awdurdod i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- manylion sut bydd awdurdod yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg cyflogeion, yn cynnwys trwy weithdrefnau asesu perfformiad i nodi a delio ag anghenion hyfforddiant
- cynllun gweithredu yn ymwneud ag amcanion tâl ar sail rhywedd (gweler Gwahaniaethau tâl ar sail rhywedd uchod).

Yr awdurdod sydd i benderfynu a ddylai gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'w ddyletswydd gyffredinol yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

Wrth baratoi ac adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol, rhaid i awdurdod ymgysylltu'n briodol a rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

11. Beth yw pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw cofnodi'r camau y mae corff rhestredig yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol.

Gall y Cynllun Cydraddoldeb Strategol adlewyrchu nifer o elfennau'r dyletswyddau penodol y tu hwnt i'r rhai hynny sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i gorff rhestredig gyhoeddi rhesymau am beidio â bod ag amcan cydraddoldeb mewn perthynas â nodwedd warchodedig. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys y rhesymau hynny fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i gynnwys amlinelliad o ddull yr awdurdod tuag at gyflawni ei rwymedigaethau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Byddai hyn yn rhoi eglurhad ynglŷn â phwy a gafodd eu cynnwys neu bwy yr ymgynghorwyd â nhw a gallai hefyd dynnu sylw at gyfleoedd i bobl berthnasol ymgysylltu yn y dyfodol.

Cysylltwch â ni

Cymru

Llinell gymorth y
Comisiwn Cydraddoldeb
a Hawliau Dynol

Llawr 3, 3 Sgwâr
Callaghan, Caerdydd
CF10 5BT

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 8810

Ffôn testun
0845 604 8820

Ffacs
0845 604 8830

Lloegr

Llinell gymorth y
Comisiwn Cydraddoldeb
a Hawliau Dynol

Arndale House,
Arndale Centre,
Manceinion M4 3AQ

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 6610

Ffôn testun
0845 604 6620

Ffacs
0845 604 6630

Yr Alban

Llinell gymorth y
Comisiwn Cydraddoldeb
a Hawliau Dynol

The Optima Building,
58 Robertson Street,
Glasgow G2 8DU

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn:
0845 604 55 10

Ffôn testun
0845 604 5520

Ffacs
0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8am–6pm

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Gallwch lwytho pob cyhoeddiad i lawr hefyd a'u harchebu mewn amrywiaeth bo fformatau o'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ebrill 2011
ISBN 978 1 84206 417 7

Gwaith celf gan Epigram
www.epigram.co.uk

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission